# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 4 E+W

CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

*Sefydlu ac amcan cyffredinol etc. Corff Llais y Dinesydd*

### 12 Sefydlu Corff Llais y Dinesydd E+W

(1) Mae Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "Corff Llais y Dinesydd") wedi ei sefydlu fel corff corfforedig.

(2) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad Corff Llais y Dinesydd a materion perthynol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 12 mewn grym ar 1.4.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 3(a)**

### 13 Amcan cyffredinol E+W

(1) Amcan cyffredinol Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

(2) At ddibenion cyflawni'r amcan hwnnw, rhaid i Gorff Llais y Dinesydd geisio barn y cyhoedd, ym mha ffordd bynnag y mae'n meddwl ei bod yn briodol, mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Sefydlu ac amcan cyffredinol etc. Corff Llais y Dinesydd. (See end of Document for details)*

(3) Wrth wneud trefniadau i gydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw'n benodol i bwysigrwydd sicrhau, pan fo'n briodol, ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng ei staff, neu unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, ac unrhyw unigolion y ceisir barn oddi wrthynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I4** A. 13 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(j)**

## 14 Ymwybyddiaeth y cyhoedd a datganiad polisi E+W

(1) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i amcan cyffredinol ac o'i swyddogaethau.

(2) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd lunio a chyhoeddi datganiad o'i bolisi sy'n nodi sut y mae'n bwriadu—

(a) hybu ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau, a

(b) ceisio barn y cyhoedd at ddibenion ei amcan cyffredinol.

(3) Rhaid i'r datganiad polisi bennu'n benodol sut y mae Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu sicrhau—

(a) bod y Corff yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru,

(b) bod y Corff yn hygyrch i bobl ledled Cymru, ac

(c) bod aelodau o staff y Corff ac unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Corff yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â phobl ledled Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I6** A. 14 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(k)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Sefydlu ac amcan cyffredinol etc. Corff Llais y Dinesydd.